**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol

21 Mawrth 2019

Annwyl Jerermy

**Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Amrywio Cydsyniadau) (Cymru) 2019**
**Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ceisiadau am Gydsyniad) (Cymru) 2019**

Ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Reoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Amrywio Cydsyniadau) (Cymru) 2019 a Rheoliadau Trydan (Gorsafoedd Cynhyrchu Alltraeth) (Ceisiadau am Gydsyniad) (Cymru) 2019 (y Rheoliadau) yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019.

Hoffwn godi'r un mater gyda chi a ddaeth i'ch sylw yn fy llythyr dyddiedig 14 Mawrth 2019 mewn perthynas â Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau penodol gael eu cyhoeddi mewn un neu fwy o bapurau newydd cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r Rheoliadau yn nodi a yw "cenedlaethol" yn cyfeirio at bapur newydd Cymreig neu bapur newydd y DU.

Mae'r ymateb a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi "mae'r cyfeiriad at 'bapurau newydd cenedlaethol', yn ei gyd-destun, yn gyfeiriad at bapurau newydd y DU."

Unwaith eto, awgrymwn yn barchus nad yw'r dehongliad hwn o "genedlaethol" yn adlewyrchu datganoli yn ddigonol nac yn ystyriol o fewn y Deyrnas Unedig. Gobeithiwn y byddwch yn ystyried y mater hwn ymhellach ar y cyfle cyntaf.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Y Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.